# Cwricwlwm Ysgol Garth Olwg

Yn sail i'r cwricwlwm ffurfiol a addysgir rydym yn anelu i ddatblygu dysgwyr sy'n uchelgeisiol a parchus sy'n aelodau cydweithredol a gwerthfawr o'r gymuned leol a byd-eang.

Bydd Cwricwlwm Ysgol Garth Olwg yn meithrin arferion cadarnhaol a meddwl iach yn ein disgyblion, gan roi'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau bywyd iddynt fod yn ddysgwyr sydd yn:

Meithrin Parch

Annog Uchelgais

Cydweithio fel un Gymuned

Hybu Bywyd Iach

Dathlu Cymreictod a Chymru

Dysgu am yr ardal leol

YSGOL GARTH OLWG ISAF

**Ysgol Isaf:** Prif ffocws yr Ysgol Isaf yw rhoi'r sgiliau sylfaenol i'r disgyblion, gyda phwyslais ar ddatblygu'r iaith lafar yn Gymraeg, er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sgiliau darllen ac ysgrifennu. Gan ddefnyddio egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, a phedwar diben a meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm Newydd i Gymru, mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol tu fewn a thu allan. Datblygir y sgiliau llythrennedd a rhifedd tra rhoi'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion, ond gan hefyd rhoi amrywiaeth o brofiadau iddynt allu datblygu sgiliau meddwl, cydweithio, ymchwiliol a chreadigol. Y nod yw sicrhau bod y disgyblion yn pontio i'r Ysgol Ganol yn ddysgwyr hyderus, annibynnol ac uchelgeisiol.

YSGOL GARTH OLWG GANOL

**Ysgol Ganol:** Bwriad blynyddoedd 5 a 6 yr Ysgol Ganol ydy datblygu'r sgiliau a faethwyd yn yr Ysgol Isaf, a'u mireinio gan greu dysgwyr annibynnol a hyderus. Rydym yn gosod pwyslais ar ddatblygu medrau amrywiol y ddwy iaith a sgiliau mathemateg yn y boreau ac yn plethu'r rhain i'n gwersi pynciol gyda'r prynhawn. Mae'r pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad wrth galon ein gwaith, ac o ganlyniad mae creadigrwydd, arbenigedd, barn a chyfraniad pob disgybl yn cael rhwydd hynt i ddatblygu a ffynnu heb ffiniau.

Ym mlwyddyn 7 ac 8 mae dysgwyr yn astudio'r pynciau isod.

Pynciau craidd y cwricwlwm cenedlaethol: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Pynciau anghraidd: Addysg Gorfforol, Celf, Cerddoriaeth, Drama, Dyniaethau, Ffrangeg, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth ac Iechyd, Lles a Moeseg.

# Cwricwlwm Ysgol Garth Olwg

**Ysgol Uchaf:** Ym mlwyddyn 9 mae disgyblion yn parhau i astudio'r pynciau gorfodol ac yn dewis i astudio 4 o'r pynciau dewisol yn unig.

Pynciau gorfodol (craidd): Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Pynciau gorfodol (anghraidd): Addysg Gorfforol Statudol, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth Sylfaenol ac Iechyd, Lles a Moeseg.

Pynciau dewisol: Addysg Gorfforol Bellach, Addysg Grefyddol, Celf, Cerddoriaeth, Daearyddiaeth, Drama, Ffrangeg, Hanes a Thechnoleg Gwybodaeth Bellach.

Ar ddiwedd blwyddyn 9 fe fydd disgyblion yn dewis tri phwnc opsiwn i astudio ar gyfer eu cymwysterau TGAU neu alwedigaethol lefel 2.

Ym mlwyddyn 10 ac 11, yn ogystal i'r pynciau craidd gorfodol bydd y disgyblion yn astudio'r tri phwnc opsiwn maent yn dewis a hefyd y Dystysgrif Her Sgiliau.

Pynciau opsiwn: Addysg Gorfforol, BTEC Arwain drwy Chwaraeon, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Astudiaethau Crefyddol, Bwyd a Maeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth, Dilyniant Personol a Lles, Drama, Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch, Dylunio a Thechnoleg: Ffasiwn a Thecstiliau, Ffotograffiaeth, Ffrangeg, Hanes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thechnoleg Ddigidol.

**Ysgol Hŷn:** Yn ogystal ag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau rydym yn disgwyl i ddisgyblion yr Ysgol Hŷn i ddechrau gan astudio o leiaf 3 cymhwyster dewisol arall. Mae yna amrywiaeth o gymwysterau lefel 3 gwahanol (Uwch Gyfrannol, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol).

Blaenoriaeth sydd gyda ni ar gyfer ein dysgwyr Ysgol Hŷn yw eu bod yn datblygu eu sgiliau personol, datblygu eu gallu i gymryd cyfrifoldeb ac i ymarfer arweinyddiaeth.